

DOLEN Y TAB 97

11–12 Mawrth 2022

Bore Sul 13 Mawrth am 11

Oedfa gymun yng nghwmni'r Parchedig Aled Edwards a Margaret Pritchard Copley, gydag Eleri'n cyfeilio.

Caiff yr oedfa ei ffrydio'n 'fyw' ar dudalen Facebook y capel a bydd modd gwyllo recordiad yn ddiweddarach naill ai ar Facebook neu ar YouTube.

Cofiwch gofrestru sedd(i) erbyn 6 nos Wener.

YR OEDFAON NESAF

Mawrth

20 Rowland a Marian Wynne

27 Y Parchg. Gethin Rhys a Huw Roberts

Ebrill

3 Yr Ysgol Sul gyda Bethan Reynolds – Paratoi at y Pasg

10 Sul y Blodau, Y Parchg. Aled Edwards

17 Sul y Pasg, Y Parchg. Eirian Rees

Hefyd ddydd Sul 13 Mawrth

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal Alun Tudur, Caerdydd

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30–20.00 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol –


Wcráin Nia fydd yn arwain pennod arbennig i nodi'r sefyllfa yn Wcráin gydag emynau a chyfraniadau cerddorol o'r Deml Heddwch yng Nghaerdydd.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

CAROL

Gyda thristwch mawr y derbyniwyd y newyddion y bore 'ma fod Carol Williams, Hendre, Pentyrch wedi ein gadael wedi cystudd hir. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Penri, y teulu i gyd a'r llu o gyfeillion oedd ganddi yn eu colled.



Briwsionyn o'r Bwrdd

Un sylw ddarllenais i'n ddiweddar sydd wedi glynu yn y cof yw y bydd yn fwy anodd cytuno pa gamau i'w mabwysiadu wrth i gyfyngiadau'r Llywodraeth i reoli lledaeniad Covid-19 gael eu llacio nag yn ystod cyfnodau Lefel Rhybudd 2 a'r clo mawr ei hun. A dyma'n union oedd profiad aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn eu cyfarfod nos Fawrth wrth wyntyllu'r camau nesaf y dylem eu mabwysiadu fel eglwys yng ngoleuni cyhoeddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru i godi'r **orfodaeth gyfreithiol** i wisgo mwgwd mewn addoldai, a'r disgwyliad na fydd gorfodaeth gyfreithiol i wisgo mwgwd mewn unrhyw fan dan do o 28 Mawrth ymlaen. Ar y llaw arall, mae rheidrwydd arnom fel sefydliad i fabwysiadu mesurau a ystyrir yn rhesymol i ddiogelu'r gynulleidfa'n parhau.

Wedi rhoi cyfle i bawb fynegi barn ar y dewisiadau o'n blaenau, cytunwyd y byddem yn parhau gyda'r trefniadau presennol hyd ddiwedd mis Mawrth o leiaf. Ond, yn y cyfamser, bydd y Bwrdd yn trefnu arolwg byr i wahodd yr aelodau i ddweud eu dweud ar y canllawiau hynny i'w hepgor o ddechrau Ebrill ymlaen, megis y rheidrwydd i wisgo mwgwd yn y cwrdd a'r mesurau ymbellhau cymdeithasol, fel na fydd raid archebu sedd ymlaen llaw na threfnu stiwardiaid i dywys pobl i'w seddi. Yn ystod yr wythnos nesaf byddwn yn dosbarthu holiadur syml i'r perwyl hwn ar e-bost. Bydd croeso hefyd i'r aelodau hynny nad ydynt wedi eu cysylltu â'r rhyngwyd i rannu eu sylwadau gydag un o swyddogion y Tabernacl.





Pigion o'r Wasg

FFOADURIAID WCRÁIN

Yn naturiol ddigon, rhoddir cryn sylw yn rhifyn cyfredol *Y Tyst* (10 Mawrth) i'r gyflafan erchyll yn Wcráin, ac yn benodol felly brofiadau hunllefus y gwragedd a'u plant, yr henoed a'r methodig nad oedd ganddynt ddewis ond dianc o'r wlad. Mae'n gwbl amhosib i ni ddychmygu eu gwewyr wrth droi eu cefnau ar eu gwŷr a'u meibion heb wybod a fyddant yn eu gweld byth eto, a heb wybod chwaith lle roeddynt yn mynd na beth i'w ddisgwyl. Dyma gaiff sylw Dewi Myrddin Hughes yn y golofn *'Barn Annibynnod'* yr wythnos hon. Mae'n llawenhau'n fawr wrth weld y gefnogaeth i'r ffoaduriaid hyn wrth i wledydd agor eu ffiniau i'w croesawu, ond yn gresynu bod llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn parhau i osod rhwystrau yn eu ffordd. Meddai: *'Aeth Prydain yn lle pur ddigroeso i geiswyr lloches o bob cyfeiriad. Dyw'r argyfwng presennol ddim fel pe bai'n meddalu dim ar agwedd haearnaidd Priti Patel a'r Swyddfa Gartref'*, ac rwy'n sicr y byddai pob un ohonom yn amenio ei feirniadaeth lem.

Yn Adran Gydenwadol yr un rhifyn o'r *Tyst*, ceir adroddiad o lythyr a anfonwyd at Brif Weinidog y Deyrnas Gyfunol gan arweinwyr prif enwadau Cymru, ymhlith dros fil o arweinwyr ffydd ar draws Prydain, yn ei annog i ailystyried y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau oedd yn cael ei drafod yn Nhŷ'r Arglwyddi. Maent yn datgan yn y llythyr, 'Cyhyd ag y bydd gwrthdaro ac anghyfiawnder yn y byd, bydd pobl ar eu cythlwg yn ceisio lloches rhag rhyfel, erledigaeth a dioddefaint. Allwn ni ddim cau ein drws arnynt, ond dyna'n union y mae'r Bil hwn yn ei wneud . . . Yng nghyd-destun gwrthdaro byd-eang cynyddol, gan gynnwys y gwrthdaro yn Wcráin, mae'r ffordd y mae'r Bil yn tansellio gallu'r Deyrnas Unedig i gefnogi pobl sy'n ffoi rhag gwrthdaro yn amlycach fyth.'

Ceir nifer o gyfeiriadau hefyd ar dudalen flaen *Y Tyst* at y sefyllfa yn Wcráin, gan gynnwys Neges Gŵyl Ddewi Llywydd yr Undeb, y Parchedig Beti-Wyn James. Mewn ymateb i orchymyn Vladimir Putin i osod arfau niwclear Rwsia ar rybudd uchel, mae'n credu bod 'angen ymgyrch newydd a dwys ar gyfer diarfogi niwclear rhyngwladol'. Hefyd ar y dudalen flaen nodir manylion Apêl Cymorth Cristnogol, a cheir llun o'r celf stryd trawiadol sydd wedi ymddangos mewn ale diarffordd ger Stryd y Plwca, Rhath, Caerdydd.

[Gellir darllen yr eitemau hyn yn eu cyfanrwydd yn y rhifyn digidol cyfredol o'r *Tyst*: <https://www.annibynwyr.org/cy/page/newsletter>]

ARGYFWNG WCRÁIN

A ninnau i gyd wedi ein brawychu gan erchyllterau Pwtin yn Wcráin, bu cryn holi a dyfalu am y ffordd orau i helpu'r bobl yn y fath argyfwng, yn yr hir-dymor yn ogystal ag ar frys. Penderfynwyd ein bod yn cefnogi apêl a sefydlwyd yr wythnos ddiwethaf gan Cymorth Cristnogol, sef:

UKRAINE CRISIS APPEAL – CHRISTIAN AID

Mae Cymorth Cristnogol bob amser yn gweithio gyda phartneriaid lleol ym mhob argyfwng, ac yn medru saernïo eu cymorth yn effeithiol, a ninnau wedi ymateb i argyfyngau drwyddyn nhw yn y gorffennol. Drwy anfon arian atyn nhw yn enw'r Tabernacl, fe wyddom y bydd yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau a mwyaf effeithiol.

Gallwch wneud trosglwyddiad banc:

Cod didoli: 30 - 96 - 72

Rhif cyfrif : 03607499

gan nodi **Apêl Wcráin Cymorth Cristnogol. Neu**

Gallwch anfon siec at ein trysorydd:

Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU

yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf., gan nodi ar gefn y siec

Apêl Wcráin Cymorth Cristnogol. Neu

Gallwch roi cyfraniad mewn amlen yn y blwch casglu yn y cyntedd, gan nodi **Apêl Wcráin Cymorth Cristnogol.**

DIOLCH YN FAWR

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG Cwrdd Chwarter Rhithiol

7.30 Nos Fercher 23 Mawrth 2022

Profiadau Arloesi Dwy Eglwys

Cyflwyniadau ar waith arloesi
Eleri Mai, Capel y Tabernacl, Efail Isaf
a chynllun Angor Grangetown
Cynan Llwyd, Ebeneser, Caerdydd.

**I dderbyn y ddolen Zoom anfonwch e-bost at:
capelytabernacl@gmail.com**

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk